# Pembrokeshire County Council

# Cyngor Sir Penfro

# Asesiad o Gymeriad Tirwedd

**Drafft Ymgynghori**

Gorffennaf 2019

**Dr Steven Jones B.A.(Anrh), D.M.S., M.B.A., Ph.D., M.C.I.M.**
**CYFARWYDDWR GWASANAETHAU CYMUNEDOL**

## Cynnwys

Trosolwg ........ 4
Geirfa o Dermau Technegol ........ 6
Cyflwyniad ........ 7
Cefndir ........ 7
Diben ........ 7
Dull Gweithredu ........ 7
Methodoleg Asesu Cymeriad ........ 8
Cam 1: Diffinio Diben a Chwmpas yr Asesiad ........ 8
Cam 2 Astudiaeth Bwrdd Gwaith ........ 9
Cam 3 Astudiaeth yn y Maes ........ 11
Cam 4 Adolygu Dosbarthiad a Disgrifiad ........ 11
Tirweddau Sir Benfro ........ 12
Trosolwg ........ 12
Newid Tirwedd ........ 12
Ddoe a Heddiw ........ 12
Y Dyfodol ........ 12
Rhinweddau Allweddol ........ 13
Newid yn yr Hinsawdd ........ 14
Grymoedd Cyffredinol er Newid y Dirwedd ........ 15
Dynodiadau Amgylcheddol Cenedlaethol a Rhyngwladol ........ 15
ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 1: TREFFYNNON ........ 16
ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 2: TREMARCHOG ........ 20
ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 3: ABERGWAUN ARFORDIROL ........ 24
ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 4: MYNYDD CILCIFFETH ........ 29
ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 5: GWASTADEDDAU SCLEDDAU ........ 33
ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 6: MYNYDDOEDD TREFGARN A PLUMSTONE ........ 37
ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 7: PELCOMB A SIMPSON CROSS ........ 41
ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 8: HWLFFORDD ........ 45
ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 9: GWASTADEDDAU JOHNSTON ........ 50
ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 10: GOGLEDD CLEDDAU ........ 55

ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 11: CLEDDAU WEN ..... 59
ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 12: GWASTADEDDAU'R LANDSKER ..... 63
ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 13: LLANDUDOCH ..... 67
ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 14: CYMOEDD COEDIOG AFON CYCH AC AFON TAF ..... 71
ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 15: BONCATH ..... 75
ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 16: DE CLEDDAU DATBLYGEDIG ..... 79
ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 17: UCHELDIR MYNYDD PRESELI ..... 83
ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 18: CYMOEDD CLEDDAU DDU ..... 87
ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 19: ARBERTH A BRO LLANBEDR ..... 91
ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 20: GWASTADEDDAU JEFFREYSTON ..... 95
ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 21: PENALUN ..... 100
ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 22: ABERDAUGLEDDAU ..... 104
ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 23: YMYL DIWYDIANNOL DE CLEDDAU ..... 108
ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 24: GWASTADEDDAU LLAID DE CLEDDAU ..... 112
ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 25: HUNDLETON A LLANDYFÁI ..... 115
ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 26: MAENCLOCHOG ..... 119
ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 27: TRECŴN ..... 123
ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 28: CEUNANT TREFGARN ..... 127
ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 29: PENRHYN COSHESTON ..... 131
Atodiad 1 LANDMAP ..... 135
Atodiad 2 Haenau ACT LANDMAP ..... 136

Bydd yr Asesiad Cymeriad Tirwedd drafft hwn yn cael ei gyhoeddi at ymgynghori rhwng

15 Gorffennaf ac 16 Medi 2019

Dylid e-bostio holl sylwadau i ldp@pembrokeshire.gov.uk


neu drwy'r post at
Julie Kirk
Cynlluniau Datblygu a Chadwraeth
Adran Gwasanaethau Cymunedol
Neuadd y Sir
Hwlffordd
Sir Benfro SA71 1TP

## Trosolwg

Defnyddiwyd 'An Approach to Landscape Character Assessment', Natural England Hydref 2014, i lywio proses a chyfnodau'r Asesiad hwn o Gymeriad y Dirwedd. Ei nod yw rhoi dehongliad diduedd o'r dirwedd sy'n cwmpasu nodweddion ffisegol y dirwedd a phriodweddau synhwyraidd a nodwyd trwy astudiaethau bwrdd gwaith ac yn y maes. Mae'n rhoi asesiad o gymeriad y dirwedd yn y Sir, oddi allan i Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro, gyda'r bwriad o gynyddu dealltwriaeth o rinweddau, nodweddion allweddol a sensitifedd y dirwedd.

Dynodwyd cyfanswm o 29 o Ardaloedd Cymeriad Tirwedd (ACT), yn dilyn asesiad dechreuol o haenau LANDMAP, a diwygio gan aelodau'r grŵp llywio. Mireiniwyd pob ACT yn ystod astudiaeth bwrdd gwaith ac astudiaeth ddilynol yn y maes.

Bydd yr Asesiad Cymeriad Tirwedd drafft hwn yn destun ymgynghori â'r cyhoedd a'i fwriad yw ffurfio canllawiau cynllunio atodol i'r Cynllun Datblygu Lleol a sylfaen dystiolaeth i adolygiad y Cynllun Datblygu Lleol.



| Cyf. yr ACT | Enw'r ACT |
|---|---|
| ACT01 | Treffynnon |
| ACT02 | Tremarchog |
| ACT03 | Abergwaun Arfordirol |
| ACT04 | Mynydd Cilciffeth |
| ACT05 | Gwastadeddau Scleddau |
| ACT06 | Mynyddoedd Trefgarn a Plumstone |
| ACT07 | Pelcomb a Simpsons Cross |
| ACT08 | Hwlfforddd |
| ACT09 | Gwastadeddau Johnston |
| ACT10 | Gogledd Cleddau |
| ACT11 | Cleddau Wen |
| ACT12 | Gwastadeddau'r Landsger |
| ACT13 | Llandudoch |
| ACT14 | Cymoedd Coediog Afon Cych ac Afon Taf |
| ACT15 | Boncath |
| ACT16 | De Cleddau Datblygedig |
| ACT17 | Ucheldir Mynydd Preseli |
| ACT18 | Cymoedd Cleddau Ddu |
| ACT19 | Arberth a Bro Llanbedr |
| ACT20 | Gwastadeddau Jeffreyston |
| ACT21 | Penalun |
| ACT22 | Aberdaugleddau |
| ACT23 | Ymyl Diwydiannol De Cleddau |
| ACT24 | Gwastadeddau Llaid De Cleddau |
| ACT25 | Hundleton a Llandyfái |
| ACT26 | Maenclochog |
| ACT27 | Trecŵn |
| ACT28 | Ceunant Trefgarn |
| ACT29 | Penrhyn Cosheston |

## Geirfa o Dermau Technegol[1]

**Nodweddu** Proses nodi ardaloedd o gymeriad tebyg, eu dosbarthu a'u mapio a disgrifio'u cymeriad.

**Nodweddion** Elfennau, neu gyfuniadau o elfennau, sy'n gwneud cyfraniad arbennig i gymeriad neilltuol.

**Dosbarthiad** Rhannu'r dirwedd yn ardaloedd o gymeriad gwahanol, adnabyddadwy a chyffredin cyson a grwpio ardaloedd o gymeriad tebyg gyda'i gilydd.

**Elfennau** Cydrannau unigol fel coed a gwrychoedd sy'n ffurfio'r dirwedd.

**Nodweddion** Elfennau arbennig o amlwg neu sy'n dal llygad, fel llwyni coed, tyrau eglwysi neu orwelion coediog.

***Newid Tirwedd (grymoedd er newid)***. Y rhain yw'r dylanwadau sydd wedi newid y dirwedd. Gallant fod yn brosesau naturiol neu'n ddylanwadau dynol a gallant fod yn hanesyddol, yn gyfredol neu'n dueddiadau neu bwysau tebygol at y dyfodol.

**Nodweddion Allweddol** Y cyfuniadau hyn o elfennau sy'n arbennig o bwysig i gymeriad presennol y dirwedd ac sy'n cynorthwyo rhoi ymdeimlad neilltuol arbennig o le i ardal.

**Cymeriad Tirwedd** Patrwm gwahanol, adnabyddadwy a chyson o elfennau yn y dirwedd sy'n gwneud un dirwedd yn wahanol i un arall, yn hytrach nag yn well neu'n waeth.

**Ardaloedd Cymeriad Tirwedd** Mae'r rhain yn ardaloedd unigol **unigryw** sy'n ardaloedd daearyddol arwahanol o fath arbennig o dirwedd. Mae gan bob un ei chymeriad a hunaniaeth unigol ei hun, er ei bod yn rhannu'r un nodweddion cyffredinol gyda mathau eraill.

**Asesiad o Gymeriad Tirwedd** – Dyma broses nodi a disgrifio amrywiad yng nghymeriad y dirwedd. Mae'n ceisio nodi ac esbonio'r cyfuniad unigryw o elfennau a nodweddion (priodoleddau) sy'n gwneud tirweddau'n neilltuol. Mae'r broses hon yn arwain at gynhyrchu asesiad o gymeriad y dirwedd.

[1] Detholiad o 'An Approach to Landscape Character Assessment', Hydref 2014, Natural England.
*Diffiniwyd yn lleol

# Cyflwyniad

## Cefndir

Ar ôl ymgynghori, bydd yr Asesiad o Gymeriad Tirwedd (ACT) hwn ar gyfer Sir Benfro, oddi allan i Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro, yn ffurfio Canllawiau Cynllunio Atodol i Gynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Penfro (a fabwysiadwyd ar 28ain Chwefror 2013), gan gynnwys Polisi GN.1 'Polisi Datblygu Cyffredinol'. Mae polisi'r Cynllun Datblygu Lleol yn ceisio gwrthsefyll datblygiad a fyddai'n cael effaith andwyol ar gymeriad, ansawdd neu amrywiaeth tirwedd. Bydd hefyd yn ffurfio rhan o'r sylfaen dystiolaeth i adolygiad y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl2).

Prif ffynhonnell gwybodaeth bwrdd gwaith yw LANDMAP. Ystyr LANDMAP yw Proses Asesu Tirwedd a Gwneud Penderfyniadau a dyma'r agwedd gydnabyddedig at asesu tirwedd yng Nghymru. Fe all gynorthwyo gyda gwneud penderfyniadau dros amrywiaeth o bynciau gan gynnwys cynllunio, rheoli tirwedd a gwella amgylcheddol. Mae rhagor o wybodaeth am LANDMAP i'w chael yn Atodiad 1.

## Diben

Bydd y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) hyn, o'u mabwysiadu gan yr Awdurdod, yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu a yw cynigion datblygu'n cael effaith andwyol ar y dirwedd, yn groes i Bolisi GN.1 'Polisi Datblygu Cyffredinol' a pholisïau cenedlaethol a lleol perthnasol eraill.

Bydd yn rhoi dealltwriaeth o gymeriad a sensitifedd y dirwedd ac yn cynorthwyo deall yr effaith all fod ar gymeriad tirwedd. Mae'n cyflwyno nodweddion allweddol, tueddiadau canfyddadwy, sensitifedd i ddatblygiad a chanllawiau ar gyfer diogelu, gwarchod neu gyfoethogi nodweddion allweddol. Ei brif ddiben yw sicrhau bod tirweddau'r sir yn cael eu hystyried pan fo cynnig i ddatblygu neu reoli tir a dylai penderfyniadau gynnwys gallu cadw neu wella cymeriad tirwedd. Dylid ei bwyso gyferbyn â holl ystyriaethau perthnasol eraill.

## Dull Gweithredu

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys y canlynol:

- Golwg dros dirwedd ac anheddau'r ardal sirol.
- Nodi ardaloedd cymeriad tirwedd penodol, disgrifiad o'u gwerth cynhenid a'u nodweddion allweddol, eu rhinweddau allweddol, a Newid Tirwedd. Mae'r rhain yn cwmpasu newidiadau a fu, dylanwadau presennol a'r rhai all fod yn y dyfodol ar y dirwedd.

Mae'r ffynonellau gwybodaeth a chanllawiau canlynol wedi dylanwadu ar y dull a ddefnyddiwyd:

- Adnodd system wybodaeth LANDMAP. Mae LANDMAP yn disgrifio ac yn pwyso a mesur agweddau ar y dirwedd ac mae'n ffurfio sail i agwedd cyson Cymru gyfan at asesu tirwedd. Nid oes unrhyw Asesiad Cymeriad Tirwedd presennol ar gyfer Sir Benfro oddi allan i'r Parc Cenedlaethol. [2]

[2] Sicrhawyd ansawdd holl haenau LANDMAP Sir Benfro yn 2013 neu 2011.

- Map Cymeriad Tirwedd Cymru sy'n rhoi ardaloedd cymeriad tirwedd ar raddfa ranbarthol ac a ddyfeisiwyd gan hen Gyngor Cefn Gwlad Cymru yn 2013.

- Astudiaethau mewn ardaloedd cyfagos i alluogi cysondeb gyda thirweddau diffiniedig presennol [Canllawiau Cynllunio Atodol Asesu Cymeriad Tirwedd, APCAP, Mehefin 2011; Chanllawiau Cynllunio Atodol Asesu Cymeriad Morwedd, APCAP Rhagfyr 2013; Ardaloedd Tirwedd Arbennig Sir Gâr, 2011; a Dynodi Ardaloedd Tirwedd Arbennig Cyngor Sir Ceredigion, Hydref 2010].

## Methodoleg Asesu Cymeriad

Seiliwyd yr Asesiad o Gymeriad y Dirwedd ar Ardaloedd Cymeriad Tirwedd dynodedig. Ardaloedd Cymeriad Tirwedd yw '*ardaloedd unigol unigryw sy'n rhanbarthau daearyddol arwahanol o fath arbennig o dirwedd. Mae gan bob un ei gymeriad a'i hunaniaeth unigol ei hun, er ei fod yn rhannu'r un nodweddion cyffredinol gyda mathau eraill'.*

Mae'r Ardaloedd Cymeriad Tirwedd yn ardaloedd daearyddol unigol unigryw. Maent yn rhannu nodweddion cyffredinol gydag ardaloedd eraill o'r un math, ond bod ganddynt eu hunaniaeth arbennig eu hunain, er enghraifft ymdeimlad cryf o le. Mae mathau o dirwedd o natur gyffredinol ac yn rhannu cyfuniadau tebyg yn fras o ddaeareg, ffurf tir, patrymau draenio, planhigion, defnydd tir ac anheddiad hanesyddol gan arwain at batrwm cyffredin.

Yr Asesiad o Gymeriad y Dirwedd '*yw proses nodi a disgrifio amrywiad yng nghymeriad y dirwedd. Mae'n ceisio nodi ac egluro'r cyfuniad unigryw o elfennau a nodweddion (priodoleddau) sy'n gwneud tirweddau'n neilltuol. Mae'r broses hon yn arwain at gynhyrchu asesiad o gymeriad y dirwedd'*[3].

Dynodwyd yr Ardaloedd Cymeriad Tirwedd trwy ddefnyddio oedd ar gael o'r set ddata LANDMAP gyda Sicrwydd Ansawdd ar gyfer Sir Benfro, system genedlaethol dosbarthu tirweddau Cymru, a chyfraniad rhanddeiliaid lleol. Datblygwyd LANDMAP gan Gyfoeth Naturiol Cymru gydag ardystiad Llywodraeth Cymru.

Defnyddiwyd y fethodoleg ganlynol o 4 Cam sy'n cyd-fynd â chanllawiau cyfredol.[4]

### Cam 1: Diffinio Diben a Chwmpas yr Asesiad

Bwriad yr Asesiad o Gymeriad y Dirwedd yw:

1. Ffurfio canllawiau cynllunio atodol i'r Cynllun Datblygu Lleol.
2. Darparu sylfaen dystiolaeth ar gyfer adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol.
3. Darparu cyd-destun tirwedd ar gyfer penderfyniadau rheoli datblygiad ar geisiadau cynllunio.
4. Rhoi cyd-destun i astudiaethau pellach, gan gynnwys astudiaethau cynhwysedd a sensitifedd sy'n ystyried gallu'r dirwedd i gynnwys datblygiad penodol.

Mae'r ACT yn nodi ardaloedd o gymeriad tirwedd ac mae'n disgrifio prif briodoleddau'r dirwedd, gan gynnwys diffinio nodweddion, elfennau tirwedd, tirffurf, planhigion, defnydd tir a phatrwm anheddiad ac mae'n ei

[3] 'An Approach to Landscape Character Assessment', Hydref 2014, Natural England
[4] 'An Approach to Landscape Character Assessment', Hydref 2014, Natural England.

gyflwyno mewn ffordd hygyrch trwy ddefnyddio gwybodaeth ysgrifenedig a mapiau. Bydd yr ACT yn cael ei wneud ar raddfa 1:20,000[5] gan Swyddogion Cyngor Sir Penfro ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol.

Ffurfiwyd grŵp llywio o'r canlynol

**Cyngor Sir Penfro:** Cydgysylltydd Gwybodaeth GIS, Swyddog Tirwedd (Tîm Cadwraeth), Rheolwr Cynlluniau Datblygu a Chadwraeth

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro:** Swyddog Cynllunio (Cyfarwyddo'r Parc)

**Cyfoeth Naturiol Cymru:** Uwch-swyddog Tirwedd

## Cam 2 Astudiaeth Bwrdd Gwaith

Er mwyn cyflawni'r allbynnau gofynnol, bydd yr ACT yn darparu ardaloedd cymeriad tirwedd ymgeisiol allan o set wybodaeth LANDMAP[i]. Sicrhawyd ansawdd yr holl haenau a chawsant eu darparu gan arbenigwyr yn unol â methodoleg gymeradwy LANDMAP[6].

Defnyddiwyd yr haenau gyda sicrwydd ansawdd ym mis Hydref 2015 ar gyfer yr asesiad hwn ac roeddent fel a ganlyn ar adeg crynhoi data.

| **Haen LANDMAP** | **Dyddiad SA** |
|---|---|
| Tirwedd Ddaearegol | 25/10/13 |
| Cynefinoedd Tirwedd | 04/02/13 |
| Gweledol a Synhwyraidd | 17/10/13 |
| Tirwedd Hanesyddol | 18/10/13 |
| Tirwedd Ddiwylliannol | 20/12/11 |

Diweddarwyd haenau LANDMAP ers dechrau'r asesiad hwn. Gwnaed argymhellion ar newidiadau i'r haen dirwedd Cynefinoedd yn 2015. Argymhellwyd newidiadau oherwydd ehangu cylchoedd trefol a newidiadau yng ngorchudd cynefinoedd, fel cynnydd mewn coetir a phrysgwydd.

Crynodeb o newidiadau a dylanwadau yn Sir Benfro a nodwyd yn 'Sir Benfro: LANDMAP Newid Cyfeiriad: Adroddiad Arolygu Terfynol Agwedd Gweledol a Synhwyraidd: Mawrth 2015' yw:

***Ehangu anheddau.***

*5.1 Mae'r rhan fwyaf o'r trefi a phentrefi mwy wedi cael rhywfaint o ehangu a/neu ddatblygiad mewnlenwi, datblygiad tai gan mwyaf*

***Aberdaugleddau***

---

[5] Dilyswyd y data LANDMAP ar y raddfa hon.

[6] https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/business-sectors/planning-and-development/evidence-to-inform-development-planning/landmap-the-welsh-landscape-baseline/?lang=cy

*5.2 Mae newidiadau i'r safleoedd diwydiannol mawr, gan gynnwys dymchwel, ailadeiladu, glanfeydd newydd, tyrbinau gwynt a chynnydd yn nhraffig y porthladd i gyd wedi creu newid arwyddocaol o gwmpas yr Aber.*

***Y Llwyn Helyg***

*5.3 Mae ymestyn datblygiadau diwydiannol a datblygiadau eraill, ynghyd â mwy o weithgaredd cysylltiedig â'r maes awyr a chae'r sioe'n golygu y bu newidiadau sylweddol yn yr ardal hon.*

***Cynlluniau ffyrdd newydd***

*5.4 Mae ffordd osgoi Llangwathen (A40) yn mynd drwy'r hyn oedd yn gefn gwlad agored ac mae wedi newid golygfeydd, llonyddwch a gweithgaredd yr ardaloedd agwedd yr aiff drwyddynt. Yn yr un modd, aildrefnwyd yr A477 gyda chyffyrdd mwy, ac mae ffordd osgoi Sageston a adeiladwyd o'r blaen wedi aeddfedu. Felly, mae golygfeydd a llonyddwch wedi newid.*

***Tyrbinau gwynt***

*5.5 Er nad oes dim ffermydd gwynt mawr yn Sir Benfro, adeiladwyd amryw dyrbinau unigol ac mewn grwpiau bach (gyda mwy'n mynd drwy'r broses gynllunio). Mae'r rhai o gwmpas Aberdaugleddau'n ychwanegu at 'anhrefn' gweledol yr ardal. Mae'r rhai ar dir amaeth y llwyfandir canolog yn dechrau cael effeithiau cronnol.*

*5.6 Mae araeau solar yn cael eu hadeiladu hefyd yn ne Sir Benfro.*

***Chwareli***

*5.7 Ehangwyd amryw chwareli yn ne'r sir, yn arbennig o gwmpas Johnston ac yng nghyffiniau Tredeml. Daeth hyn â chynnydd mewn traffig a sŵn a llwch yn ogystal ag effeithiau gweledol.*

***Datblygiadau ymwelwyr lleol mawr***

*5.8 Mae datblygiadau diweddar yn Bluestone a Folly Farm wedi ychwanegu at y gweithgaredd yn ne-ddwyrain y sir, yn ogystal â chael effeithiau gweledol sylweddol.*

***Erydu Arfordirol***

*5.9 Mae effeithiau cronnol stormydd y gaeaf a thywydd eithafol yn debygol o barhau. Fodd bynnag, ni welwyd unrhyw newidiadau tirwedd arwyddocaol cysylltiedig ag amddiffynfeydd rhag y môr ac erydiad.*

*5.10 Mae Astudiaeth Morweddau Sir Benfro'n dangos rhai grymoedd er newid a newidiadau diweddar sy'n berthnasol i newid LANDMAP.*

Tra gallant fod yn bwysig wrth ystyried cynigion datblygu unigol ac asesiadau penodol i safle, nid yw'r newidiadau a diweddariadau hyn yn peri newid graddfa dirwedd sylweddol mewn cysylltiad â'r Ardaloedd Cymeriad Tirwedd a nodwyd yn yr adroddiad hwn.

Prif ffynhonnell gwybodaeth yw'r Haen Agwedd Tirwedd Weledol a Synhwyraidd gan ddefnyddio tirffurf, gorchudd tir a phatrwm anheddu. Troshaenwyd hyn gyda haenau Cynefinoedd Tirwedd a Thirwedd Ddaearegol yn cael ei ddilyn gan Dirweddau Hanesyddol a Diwylliannol[7], ffotograffau o'r awyr sydd ar gael, a mireinio drwy'r broses hon.

Defnyddiwyd y wybodaeth hon i ddiffinio drafft ardaloedd o gymeriad cyffredin. O ganlyniad, ffurfiodd yr astudiaeth bwrdd gwaith sail yr arolwg maes a chyfranogiad rhanddeiliaid a chafodd ei gadarnhau neu fireinio drwy'r broses honno.

Y bwriad yw bod yr ACT yn cyd-fynd ag asesiadau yn nhiriogaethau awdurdodau cyfagos. Gwahoddwyd rhanddeiliaid yn y dirwedd[8] i fod yn rhan o'r grŵp llywio i graffu ar y fethodoleg arfaethedig a ffiniau'r Ardaloedd Cymeriad Tirwedd ymgeisiol a ymddangosai. Gwnaed adolygiadau o ganlyniad.

Adolygwyd yr asesiadau Cymeriad Tirwedd a Morwedd presennol ar gyfer tiriogaeth y Parc Cenedlaethol yn Sir Benfro, data LANDMAP, Asesiad Cymeriad Tirwedd Rhanbarthol i gynorthwyo ysbrydoli'r asesiad hwn a sicrhau cysondeb ar draws ffiniau gweinyddol.

## Cam 3 Astudiaeth yn y Maes

Gwnaed astudiaeth yn y maes er mwyn cadarnhau gwirionedd canfyddiadau'r astudiaeth bwrdd gwaith ar lawr gwlad a chasglu gwybodaeth ychwanegol. Cynorthwyodd yr astudiaeth yn y maes hefyd nodi tueddiadau gweladwy yn y dirwedd, eu rhinweddau allweddol ac effeithiau datblygiad presennol. Defnyddiwyd hefyd i roi gwybodaeth fanwl a phenodol ychwanegol am nodweddion a rhinweddau allweddol yr ardaloedd nodwedd.

Tra sicrhawyd ansawdd y wybodaeth LANDMAP yn y blynyddoedd diwethaf, mae angen sicrhau bod asesiad trwyadl yn cael ei wneud i brofi, mireinio a diweddaru'r canfyddiadau cyntaf. Gwnaed astudiaeth yn y maes er mwyn y canlynol:

1. Adolygu / cadarnhau canfyddiadau'r astudiaeth bwrdd gwaith. Mewn rhai achosion, arweiniodd hyn at asesiadau cymeriad diweddarach a diwygiedig.
2. Nodi difethwyr allweddol yn y dirwedd ble bynnag y bo modd.
3. Cadarnhau tueddiadau / newidiadau tirwedd a nodi rhinweddau allweddol.

## Cam 4 Adolygu Dosbarthiad a Disgrifiad

Bydd ymgynghori ar ddrafft y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) gan gynnwys awdurdodau cyfagos, Cyfoeth Naturiol Cymru a sefydliadau eraill, cymunedau, a thrigolion. Ar ôl ymgynghori, bydd yr Awdurdod yn mabwysiadu'r CCA.

[7] Methodoleg flaenorol CCGC 2002 'System Wybodaeth LANDMAP' Pennod 5.
[8] Arbenigwr Tirwedd Cyfoeth Naturiol Cymru, Swyddogion arbenigol CSP ac APCAP.

# Tirweddau Sir Benfro

## Trosolwg

Mae Sir Benfro'n dirwedd o dir amaeth agored bryniog gyda chymeriad ucheldir yn gryfach tua'r gogledd lle mae brigiadau creigiog nodedig ar ben bryniau a phlanhigfeydd coedwigaeth yn ychwanegu at yr ymdeimlad o le. I'r gogledd-ddwyrain, dyffrynnoedd coediog wedi torri i'r bryniau ucheldirol sydd am y ffin â Cheredigion a Sir Gâr. Tua'r de, mae llwyfandir isel yn ffurfio tir amaeth bras a ffrwythlon. Ymhobman, mae pentrefi hanesyddol a threfi marchnad fel Hwlffordd, Arberth a Llandudoch yn creu ymdeimlad o le a ffyniant cymunedol. Ger dyfrffordd Cleddau, mae diwydiant trwm ar hyd y cwm rhewlifol boddedig neu Ria'n creu gosodiad sy'n cwmpasu trefi morol diwydiannol Aberdaugleddau a Doc Penfro a thref farchnad hanesyddol Penfro. Yn y fan lle mae Cleddau Ddu a Chleddau Wen yn ymuno â'r aber, mae llethrau coediog bob yn ail â darnau mawr o wastadedd amaethyddol a pharcdir ac mae llinell cestyll y Landsger yn creu ymdeimlad o ddiwylliant hanesyddol hirsefydlog.

Mae Parc Cenedlaethol yr arfordir, gyda'i forlin garw, traethau tywodlyd, trefi glan môr, Mynydd Preseli agored ac ynysoedd alltraeth yn rhoi golygfeydd ysblennydd o lawer o ardaloedd mewndirol ac yn creu cydberthynas cryf.

## Newid Tirwedd

### Ddoe a Heddiw

- Tyfodd ac ehangodd anheddiad, yn bennaf yn ne Sir Benfro.
- Manteisiodd datblygiadau masnachol a diwydiannol ar lannau Cleddau'n arbennig, a gweithgaredd fferi yn Abergwaun a Doc Penfro.
- Mae amaethyddiaeth ar raddfa fawr a dwys yn amlwg, ond mae rhai tenantiaethau tir ar raddfa draddodiadol yn aros yng ngogledd y sir.
- Ceisiodd datblygiadau ynni adnewyddadwy, gan gynnwys tyrbinau gwynt a pharciau haul yn enwedig yn ne'r sir, fanteisio ar gysylltedd grid a datblygiadau presennol a gallant fod yn weladwy ar draws cylchoedd helaeth (fel y gall datblygiadau tyrbinau oddi allan i'r ardal). Mewn mannau eraill, caiff datblygiadau tyrbinau gwynt achlysurol ac ar raddfa lai effaith leol.
- Mae atyniadau a llety ymwelwyr, yn enwedig mewn meysydd carafanau, yn ychwanegiad cymharol ddiweddar at y dirwedd ac mae agosrwydd at y trefi glan môr, y traethau tywodlyd a'r morlin garw ar hyd yr arfordir deheuol yn rhoi cyfleoedd i fwynhau'r Parc Cenedlaethol. Mae meysydd carafanau'n niferus tua'r de ac fe allant fod yn fawr ac ymwthiol.
- Mae cysylltiad hir rhwng Sir Benfro â gweithgaredd milwrol ac mae safleoedd milwrol yn cynnwys ceyrydd amddiffynnol ar yr arfordir, meysydd awyr yr Ail Ryfel Byd a safleoedd presennol y Weinyddiaeth Amddiffyn ym Mreudeth a Thredeml, sydd wedi cynorthwyo llunio tirwedd yr ardal.

### Y Dyfodol

Mae rheoli tir a phwysau i ddatblygu'n ddylanwadau allweddol ar dirwedd y dyfodol, gan gynnwys mewn cylchoedd trefol. Caiff y canlynol eu hystyried yn newidiadau tebygol penodol i leoliad yn y dyfodol:

- Pwysau am ddatblygiadau preswyl mewn anheddau ac fel datblygiad ar wahân a cholli cymeriad datblygu traddodiadol anheddau.
- Newidiadau ym mhresenoldeb y Weinyddiaeth Amddiffyn yn y sir

- Newidiadau i'r dirwedd amaethyddol o ganlyniad i newidiadau rheoli tir, gan gynnwys terfynau caeau, a graddfa a deunyddiau adeiladau amaethyddol a phwyso am adeiladau a chyfleusterau ynysu mawr.
- Newidiadau i arferion da byw ac amaeth, gan gynnwys newidiadau mewn lefelau cadw defaid yng ngogledd Sir Benfro (gan gynnwys newidiadau oherwydd Prallan).
- Newidiadau mewn rhyngweithiadau o fewn yr amgylchedd dŵr, gan gynnwys newidiadau all ddigwydd i weithrediadau fferi, datblygu marinas a mwy o ddefnydd adloniadol, gan gynnwys yn Llys-y-frân.
- Newidiadau yng ngorchudd tir o ganlyniad i ehangu neu gwympo planhigfeydd coedwigaeth.
- Newidiadau yng ngorchudd a gwasgariad coed o ganlyniad i blâu ac afiechyd, e.e. clefyd coed ynn.
- Newidiadau i leoliad a thanbeidrwydd llygredd goleuni.
- Perygl cynyddol i'r amgylchedd hanesyddol o ganlyniad i bwysau datblygu.
- Posibilrwydd pwysau i ddal i ddatblygu ynni adnewyddadwy a'r effaith ar dirweddau.
- Newidiadau mewn patrymau teithio a phosibilrwydd gwrthdaro rhwng mathau o gludiant, a mwy o dagfeydd yn arwain at bwysau i ddatblygu mwy o ffyrdd.
- Newidiadau i'r diwydiant tanwydd ffosiledig.
- Pwysau i ddatblygu mwy er mwyn cynnal y diwydiant ymwelwyr, gan gynnwys atyniadau a llety.
- Bydd newidiadau ym maint a gwasgariad cymunedau Cymraeg yn effeithio ar y dirwedd ddiwylliannol.
- Mwy o berygl llifogydd ar dir isel a mannau eraill sydd mewn perygl.

Newidiadau mewn cynefinoedd oherwydd newid yn yr hinsawdd.

Caiff rhagor o ddylanwadau newid yn yr hinsawdd eu hystyried ar wahân isod.

## Rhinweddau Allweddol

- Tir amaeth isel bryniog yw llawer o Sir Benfro gyda darnau bach o goetir, gwrychoedd a chloddiau a rhwydwaith trwchus o lonydd cul creu ymdeimlad o amgaead a neilltuaeth. Mae anheddau'n brinnach tua'r gogledd.
- Mae ffermydd yma ac acw yn y dirwedd ac mae tai ac adeiladau traddodiadol, ochr yn ochr ag archeoleg arwyddocaol ac adeiladau hanesyddol, yn creu ymdeimlad o ddylanwad dynol maith ar y dirwedd.
- Mae darnau mawr o dirwedd agored, ddigysgod a garw, yn enwedig tua'r gogledd lle mae craig a charreg agored, a golygfeydd allan i gyfeiriad Mynydd Preseli a'r arfordir, yn creu ymdeimlad cryf o le a chysylltiad â'r arfordir. Fe all trefi a phentrefi hanesyddol sefyll yn amlwg ar hyd trumiau neu ar ben bryniau neu swatio ar loriau dyffrynnoedd.
- Mae tawelwch a llonyddwch yn dal yn dreiddiol draw oddi wrth y priffyrdd a'r cylchoedd diwydiannol. Bydd synau naturiol y gwynt, adar neu dda byw'n ychwanegu at lonyddwch y seinwedd. Mae cymoedd coediog cul i'r dwyrain gyda choetir trwchus cymysg yn creu mannau cysgodol, tawel a digynnwrf, gyda dim ond nentydd cyflym yn aflonyddu arnynt, sy'n cyfrannu'n sylweddol at yr ymdeimlad o le a seinwedd leol.
- Yn ddiwylliannol, mae'r cymunedau sy'n gyffredinol Saesneg tua'r de wedi ffynnu ers canrifoedd, ac yn aros yn gysylltiedig â llinell cestyll amddiffynnol Landsger y Normaniaid. Tua'r gogledd, mae'r cymunedau sy'n gyffredin Gymraeg yn cael eu hadlewyrchu yn iaith, enwau lleoedd, arwyddion ac

adeiladau'r ardal gan gadw cymunedau cryf gyda chysylltiad diwylliannol. Mewn tirwedd a luniwyd gan natur a phobl, mae datblygiadau archeolegol a hanesyddol arwyddocaol yn fras ac amrywiol. O arwyddocâd diwylliannol lleol ymhlith tirnodau nodedig mae creigiau Trefgarn, Mynydd Preseli, Pont Cleddau, datblygiad diwydiannol yn yr Aber a chronfa ddŵr Llys-y-frân.

- I raddau mawr, mae creiddiau hanesyddol trefi Sir Benfro'n cadw'u cymeriad hanesyddol ac yn ardaloedd cadwraeth dynodedig, er bod datblygiadau'r 20fed ganrif yn yr ymyl trefol yn gallu bod yn anghydnaws. Mae llawer ohonynt hefyd ar hyd llwybrau cludiant allweddol ac yn brin o dawelwch ardaloedd gwledig. Maent yn cadw cysylltiadau â'r amgylchedd morol, naill ai ar lan y môr neu ar hyd afonydd.
- Mae llygredd goleuni liw nos yn fwyfwy amlwg mewn datblygiadau diwydiannol, masnachol a chymunedol yn ogystal â chartrefi ac adeiladau amaethyddol.
- Mae ardaloedd tua'r de, ac ar yr Aber yn arbennig, yn gwneud cyfraniad sylweddol at ddarparu ynni, gan gynnwys y sectorau ffosil ac adnewyddadwy, ac fe allant fod yn ymwthiol iawn. Mewn lleoliadau diwydiannol traddodiadol fe all sŵn ac aroglau fod yn amlwg hefyd.
- Fe all amgylchedd morol yr Aber ac Afonydd Cleddau roi arogleuon y môr, golygfeydd deniadol o'r arfordir, gan gynnwys gwastadeddau llaid rhynglanwol a golygon a seiniau atgofus adar yn porthi.
- Mae atyniadau a llety ymwelwyr yn sectorau arwyddocaol i dde-ddwyrain y sir. Mae golygfeydd o'r môr o dir uwch tua'r de a mwy o feysydd carafanau a gwersylla, rhai ohonynt yn amlwg yn y dirwedd, yn cysylltu â'r arfordir.

## Newid yn yr Hinsawdd

Erys ansicrwydd ynghylch faint fydd yr hinsawdd yn newid, a pha mor gyflym. Fodd bynnag, mae cydsyniad cyffredinol bod y blaned yn cynhesu ac mai gweithgaredd dynol sy'n gyfrifol a bod cyflymder y newid ac amlder tywydd eithafol yn cynyddu. Yn y DU, gallai hyn beri mwy o ddiwrnodau o law trymach a diwrnodau sychach a phoethach – a allai arwain at gyfnodau o sychder, llifogydd a stormydd. Fe all y tymhorau fod yn llai gwahanol a chyrraedd yn gynharach neu'n hwyrach na'r disgwyl a gallai lefel y môr gynyddu. Mae llawer yn dibynnu ar ddylanwad newidiadau naturiol yn y tywydd a gallu llywodraethau i gwtogi allyriadau nwyon tŷ gwydr[9].

Mae Asesiad Risg Hinsawdd 2017 y DU Adroddiad Tystiolaeth 2017: Crynodeb ar gyfer Cymru'n amlinellu peryglon newid yn yr hinsawdd i Gymru. Mae'r rhain yn cynnwys peryglon a chyfleoedd i rywogaethau a chynefinoedd, amaethyddiaeth a choedwigaeth, priddoedd a storfeydd carbon naturiol, o dymheredd, newid yn lefel y môr, llifogydd a sychder. Cyfeiriad penodol at beryglon a chyfleoedd sy'n deillio o newidiadau yng nghymeriad y dirwedd yw:

> *'Mae cymeriad tirwedd wedi newid yng Nghymru yn ystod yr ychydig ddegawdau diwethaf. Bu newid yn yr hinsawdd yn ffactor cyfrannol, yn uniongyrchol trwy ei effeithiau ar orchudd tir ac yn anuniongyrchol trwy ddylanwadu ar rai defnyddiau tir dros eraill mewn mannau penodol. Yn ddiamau, bydd newidiadau i orchudd tir a defnydd tir yn dal i ddigwydd yn y dyfodol a bydd maint newid yn yr hinsawdd (ac ymatebion iddo) yn ffactor allweddol a fydd yn dylanwadu ar y newid hwn. Nid yn unig mae coetiroedd a gwrychoedd hynafol yn ecosystemau pwysig, maent hefyd yn asedau hanesyddol sy'n cynnwys tystiolaeth o ddefnydd dynol yn y gorffennol. Fe allai effeithiau*

[9] Adroddiadau Panel Rhyngwladol ar y Newid yn yr Hinsawdd (IPCC) https://www.edf.org/blog/2014/03/31/6-key-insights-latest-ipcc-climate-report

*newid yn yr hinsawdd ar goedwigaeth, coetiroedd hynafol a gwrychoedd fod yn raddol ond arwyddocaol. Gallai erydu pridd, newid defnydd tir ac ailblannu i gyd ddifrodi asedau hanesyddol unigol'.*

Nid yw'r ACT hwn yn nodi newidiadau cyffredinol i'r dirwedd oherwydd newid yn yr hinsawdd oni bai fod dylanwadau penodol a lleol sy'n hawdd eu gweld.

## Grymoedd Cyffredinol er Newid y Dirwedd

Caiff y rhain eu dynodi fel dylanwadau cyffredinol gyda pherthnasedd ehangach, er eu bod yn benodol i leoliad efallai. Nid yw'r grymoedd canlynol er newid y dirwedd yn cael eu hailadrodd ar draws ACT perthnasol.

- Newidiadau mewn rheoli amaethyddol. Tra gall newid yn yr hinsawdd ddod â pheryglon a chyfleoedd i amaethyddiaeth, bydd tueddiadau tuag at reoli amaethyddol dwysach yn cael effeithiau ar fuddiannau bioamrywiaeth at ei gilydd a cholli cynefinoedd. Er enghraifft, fe all ymestyn tiroedd dan gnydau gynyddu perygl llifogydd a goferiad pridd gan ddwysáu effaith newid yn yr hinsawdd a darnio cynefinoedd. Bydd newidiadau ym mhatrymau caeau oherwydd dwysáu'n effeithio ar dirwedd hefyd fel y gwna rheoli gwael a cholli terfynau caeau traddodiadol a'u disodli gan ffensys pyst a gwifrau.

- Fe all colli a datblygu nodweddion hanesyddol ac archeolegol yn amhriodol, gan gynnwys Ardaloedd Cadwraeth, Henebion Cofrestredig a nodweddion daearegol, effeithio ar dirwedd a chymeriad trefol ledled y sir.

- Mae goblygiadau cadw a chynnal rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus eglur a hygyrch yn sylweddol o ran mynediad at yr amgylchedd naturiol a ffyniant pobl.

- Fe all rheoli tir, fel pori tir comin ac ucheldiroedd a rheoli ffriddoedd, fod yn gadarnhaol a negyddol i fioamrywiaeth a bydd ganddo effeithiau ar y dirwedd a'r olygfa.

- Gallai mwy o berygl llifogydd ar hyd afonydd ac wrth lan y môr erydu nodweddion ac effeithio ar ardaloedd datblygedig, yn ogystal â chreu mwy o berygl llygru lleol o ffynonellau diwydiannol, amaethyddol ac eraill i gyrsiau dŵr. Fe all llifogydd hefyd gyflwyno nodweddion tir gwlyb newydd a newidiadau gweledol i'r dirwedd.

## Dynodiadau Amgylcheddol Cenedlaethol a Rhyngwladol

Oddi allan i'r Parc Cenedlaethol mae Dynodiadau Amgylcheddol yn cynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig gan gynnwys ACA morol, ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig. Mewn cysylltiad ag Ardaloedd Cymeriad Tirwedd mae eu dosbarthiad gofodol ar draws y sir yn amrywio. Mae ardaloedd a fapiwyd ar gael trwy adnodd ar-lein Porth-Daear, Lle. lle.llyw.cymru